# MARWNAD
ER
# COFFADWRIAETH
AM Y
*PARCH, THOMAS CHARLES, A. B.*

Yr hwn a ymadawodd a'r byd y pummed o *Hydref*, 1814. Yn y 59 mlwydd o'i Oed.

## MRS. CHARLES

hefyd a ymadawodd a'r byd y 24 or un mis, yn y 60 mlwydd o'i hoed.

---

Gwell yw dydd marwolaeth, na dydd genedigaeth.
*Solomon.*

A'r doethion a ddisgleiriant fel disgleirdeb y ffurfafen, a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder a fyddant fel y sêr, byth yn dragywydd.
*Daniel.*

PRIS DWY GEINIOG.

CAESNEWYDD:
*Argraffwyd gan EVAN LEWIS.*

1433-5-5
441 1129

## *MARWNAD*, &c.

MAE'r Eglwysi yn galaru,
Trwy'r gogledd-dir faith a'r de,
Am farwolaeth *Charles* o'r *Bala*,
Ffyddlon was i Frenhin ne;
Fe fu ffyddlon yn llaw'r nefoedd,
I gyhoeddi'r 'fengyl lân,
A'i throsglwyddo i ardaloedd,
Lle na bu hi 'rioed o'r bla'n.

2 Hyn yn unig oedd ei ddyfais,
A'i fyfyrdod ddydd a nos,
Po'dd y gallai ddodi allan,
Werthfawrogrwydd ange'r gro's,
Enw'r Iesu oedd yn wastad,
O flaen ei lygaid ef o hyd,
A lles eneidiau byd colledig
Oedd ei lafur ef i gyd.

3 Nid rhwymo baich ar ysgwydd arall,
Heb ymaflyd ynddo ei hun,
A'u coffau drachefn ganddo
Y gorch'mynion nid oedd flin;
'Roedd ei eiriau ynghydd â'i gamrau,
Yn cyfadde un uchel iawn,
Mai dieithr ar y ddaear
Oedd ef yma fore a'nhawn.

4 'Roedd e'n dan i'r assosasiwn,
Trwy'r gogleddir fawr a'r de,

A hynny nid o osodiad dynion,
Ond gosodiad Brenhin ne;
'Roedd yn drachtio o'r ffynnonau,
Nes ba'i fronnau'n llawn o laeth,
A'r eglwysi'n cael eu maethu,
Gan yr hyfryd ddidwyll faeth.

5 'Roedd yn galw ar bregethwyr,
O am help i dynnu'r rhwyd,
Ac am loywi eu crymmanau,
Fel y cae'r llangcesau fwyd;
O na safed neb yn segur,
Ond pawb yn ffyddlon yn ei le,
'N erbyn byd a chnawd a satan,
A'i holl gas ddichellion e.

6 Fel hyn y byddai'n llawn ei enaid,
Yn wastad ynghyn'lleidfa'r saint,
Ac yn dywedyd wrth ei frodyr,
Fod gwasanaeth Duw yn fraint,
'Roedd yn tynnu o'r ffynnonau,
A'r pibellau'n carrio'r dw'r
Trwy'r eglwysi heb ei golli
Y mae'n llawn dystiolaeth siwr.

7 O mor hôff oedd ganddo wrando,
Geiriau Duw o enau plant,
'Roedd hynny'n wastad rym i'w yspryd,
Fel melus wîn neu loyw nant,
Fe'u gosodai fel colofnau,
Neu fel dinas fawr ar fryn,
Nes y bae torfeydd yn d'wedyd,
Ni welsom ni erioed fel hyn.

8 Wrth wel'd hyn fe fyddai uffern,
Mewn cynddaredd mawr a llid,

Ac yn ochain yn ddychrynllyd.
Fod *Charles* yn aflonyddu'r byd;
O na fagai hyn eiddigedd,
Ar rwy filoedd lanw ei le,
A mil o weithiau yn helaethach,
Aneirif ydyw doniau'r ne.

9 Beth bynnag 'maflai ddwylaw yndde
A'i holl egni gweithiau'n rhwydd,
Ac ni chae un rhyw ddiogi,
Mo'i ddioddef yn ei wydd,
Nid breuddwydio dan ei ddwylo.
Am rwy amser gwych i dd'od,
Ond gwasanaethu Duw yn wresog,
A rhodio'n addas er ei glod.

10 Ac fe gym'rai bob manteision,
A chyfleusdra i dd'weud y gwir,
Nid yn unig yn y pulpit,
'Roedd e'n hau'r gronynau pur,
Ychydig yma, a 'chydig accw,
Ac ni attaliau ddim o'i law,
Ond d'weud y gwir wrth ei gymydog;
Saif yn nydd y farn a ddaw.

11 Ymarferwch â'r gair sanctaidd,
Sydd yn dryllio'r graig fel gordd,
P'odd y gellwch fyn'd i'r nefoedd,
Ac heb wybod dim o'r ffordd,
O na chym'rwch hanes unig,
Mynwch wybod meddwl Duw,
P'odd y mae'n cyfodi'r meirw,
I dd'od i'r lan o'u beddau'n fyw.

12 Dyma'r modd y byddai'n deisyf,
O cymmoder chwi âg Ef

Eistedd ar y drugareddfa,
Mae Tywysog mawr y nef,
Dewch blant bychain, dewch henafgwyr,
Dewch chwi ieuengstyd, canol oed,
I briodas mab y Brenhin,
Gwledd na bu o'i bath erioed.

13 Bore godi hwyr i gysgu,
A phregethu'n ddiwyd iawn,
Ni ostegai, ag ni ddistawai,
Yn y bore na'r prydnhawn,
Yr oedd cariad ynddo'n berwi,
Ac ni's gall'sai dewi son,
Am drag'wyddol arfaeth gadarn,
A rhinweddau gwaed yr Oen.

14 Fe 'sgrifenodd aml lyfrau,
A thraethiadau byddiol iawn,
Byddai'n myn'd ac yn dychwelyd
Dros y moroedd llydain llawn,
'Roedd yn llawn o duedd duwiol,
Danfon Biblau dros y byd,
I'r paganiaid, lle mae t'w'llwch
Yn eu euddio oll i gyd.

15 'Fe fyddai'n myned i'r dinasoedd,
Ac yn chwilio yn ddiíai,
Ac un gofyn i'r trigolion,
A oes Bibl yn eich tai,
'Fe dosparthau'r trefydd mawrion,
'Fe'u gosodai i ofal rhai,
Sef golygwyr o'r ffyddlonaf
A'r duwiolaf ag a gai.

16 Hyd fendithiodd Duw yn rhyfedd,
'Fyned a'r newyddion da,

I ddiddymu anwybodaeth,
Lle'r ymledodd fel rhyw bla,
Roedd mor ffyddlon gyd â'r tlotaf,
A chyd â'r cyfoethogaf ddyn,
Gan gydnabod mai'r un sylwedd,
Yw plant *Adda* bod yr un.

17 'Roedd yn llawn o dân y nefoedd,
A'i enaid weithiau fyddai'n fflam
Wrth wel'd torf o bechaduriaid,
A'u heneidiau'n gwneuthur cam;
'Fe fu'n foddion yn llaw'r nefoedd,
I wneud peth rhyfedd yn ei ddydd,
Tra b,o haul yn y ffurfafen,
Am *Charles* o'r *Bala* coffa fydd.

18 Allai lai na chyffwr*dd* rhyw beth,
Am y swmbl gafoe*dd* e',
Ar y myny*dd* cribog uchel,
Wrth *d*rafaelu o le i le,
Prote*di*gaeth a'i cyfarfu,
Dwfr chwerw Mara oe*dd*,
On*d* o'r 'scerbw*d* *d*aeth melus*de*r,
A wnaeth lawer wrth eu bo*dd*.

19 Ni*d* oes on*d* Jehofa'n unig
'Dry gysgo*d* ange'n fore *d*y*dd*,
Ni*d* oes *d*im yn anhaw*dd* iddo,
Os gofynir ef mewn ffy*dd*,
Mae pob peth yn ei*dd*o i ni,
Bywy*d*, angeu os by*dd* rai*d*,
Ni*d* oes arnom *dd*im yn eisiau,
On*d* cael Iesu Grist o'n plai*d*.

20 Caria*d*, care*d*igrwy*dd* braw*d*ol,
Oe*dd* e'n fagu y'mhob man,

Codi'r gliniau fae'n ymollwng,
  Hoffai'n siwr ddiddanu'r gwan,
Llewyrchu felly ger bron dynion,
  Rhodio'n weddus wrth liw dydd,
A iachau y cloff yn hytrach,
  Wna'r bywyd oedd e'n fyw trwy ffydd.

21 'Roedd yn begian help gweddiau,
  Dros ei deulu wrth orsedd nef,
Nac anghofiwn ddim o hynny,
  Dros ei feibion anwyl ef,
'Fe feithrinodd amryw filoedd
  O blant cymru a lloegr fawr,
Nid oes neb a all ddych'mygu,
  Faint ei wobr ef yn awr.

22 'Roedd e'n llariedd ac yn dirion,
  A'i wyneb-pryd fyddai'n llon,
Gall'sai'r gwaela nesu atto
  Ac a droediau'r ddaear hon,
'Fe wrandawai drydar enaid,
  Ac os cai e'r lleiaf peth,
'Fe wnae fagu hynny i fynu,
  Ac ni chae e' fyn'd ar feth.

23 Ond os gwelai rai'n rhyfygu,
  'Nglyn â'u beie'n mentro 'mla'n,
Ni wnae arbed dim o'r rheini,
  Cym'rai gleddur gair i'w gwân,
'Roedd yn cario pob gorchwyliaeth,
  Gyd â rhyw gysondeb mawr,
Burach burach hyd y diwedd,
  O mor anhawdd 'mado 'nawr.

24 'Roedd e' megis tyw'sen addfed,
Naw'r yn disgwyl am y dydd,
Ac yn d'wedyd wrth ei Arglwydd,
Gollwng di dy was yn rhydd,
'Fe dystiolaethe 'ngrym y dyfroedd,
Er mor arwed oedd yr hîn,
Ei fod yn noddfa ddigon cadarn,
I'w gynnal yn y tywydd blin.

25 Er cymmaint oedd ei ddefnyddioldeb,
Yn y winllan tra fu byw,
Mil o weithiau'n werthfawrocach,
Ei farwolaeth gan ei Dduw,
Na alarwn fel heb obaith,
Ond ymostyngwn hyd y llawr,
Nid oes yma ddim yn digwydd,
Ond a drefnodd arfaeth fawr.

26 Mae Duw yn carrio 'mlaen ei achos,
Yn hollol ar ei 'sgwyddau ei hun,
Draw o'r oesoedd y bu *Abel*
'Mlaen hyd ddyddiau Mab y dyn,
O am gredu'r addewidion,
Ddaeth o enau Brenhin nen,
Byddaf gyd â chwi bod amser,
Hyd y diwedd oll Amen.

DIWEDD.